Tystysgrif mewn Sgiliau Iaith Gymraeg[1]

Rhagarweiniad

Mae dwy ran i'r cymhwyster hwn:

1. Cyflwyniad Llafar
2. Prawf Ysgrifennu

Dyma'r ail flwyddyn i'r cymhwyster hwn gael ei gynnal mewn partneriaeth rhwng CBAC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r cyflwyniadau llafar yn digwydd fel arfer yn ystod tymor y gwanwyn a chynhaliwyd y Prawf Ysgrifennu eleni ar 9 Mai 2018. Prawf ar-lein yw'r Prawf Ysgrifennu. Ceir gwybodaeth lawn am y cymhwyster a sut y gweithredir yr asesu yn y fanyleb, (gw. gwefan CBAC). Mae'r cymhwyster hwn wedi ei ddynodi gan Gymwysterau Cymru ar lefel 6.

Canolfannau

Dyma'r canolfannau arholi lle y cynhaliwyd TSI yn 2018, a nifer yr ymgeiswyr a safodd y cymhwyster eleni dan y sefydliad hwnnw:

	2016	**2017**	**2018**
Prifysgol Abertawe	17	33	19
Prifysgol Aberystwyth	35	35	42
Prifysgol Caerdydd	48	25	53
Prifysgol Bangor	58	45	41
Prifysgol Fetropolitan Caerdydd	24	35	24
Prifysgol De Cymru	15	15	14
Prifysgol Y Drindod Dewi Sant	34	79	67
Arall	8	-	_
Cyfanswm:	239	267	260

Cyfanswm Cofrestriad 2016 = 239
Cyfanswm Cofrestriad 2017 = 267
Cyfanswm Cofrestriad 2017 = 260

Mae nifer yr ymgeiswyr yn agos iawn at nifer ymgeiswyr 2017 a dosbarthiad gweddol debyg ar draws y canolfannau. Gwelwyd cynnydd mewn rhai canolfannau a gostyngiad mewn canolfannau eraill.

[1] Cyfeirir at y cymhwyster fel 'Tystysgrif Sgiliau Iaith' neu TSI er hwylustod.

Proffil yr ymgeiswyr

	Proffil Rhyw	
	Gwryw	Benyw
2017	26.8%	73.2%
2018	29.0%	71.0%

	Proffil oedran (oedran ar Awst 31) – canran yr ymgeiswyr						
	Dan 18	18	19	20	21	22-25	Dros 25
2017	0	0.8	17.7	30.1	27.8	11.7	12.0
2018	0	0	17.8	24.3	23.6	18.2	16.2

Mae'r proffiliau rhyw ac oedran yn debyg iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Cyflwyniad Llafar

Fel yn 2017, cafodd pob ymgeisydd ei asesu gan asesydd mewnol ac asesydd allanol. Lle roedd gwahaniaeth rhwng marciau'r ddau, roedd y Prif Arholwr yn asesu. Cafodd pob cyflwyniad llafar ei ffilmio, a chafodd y fideos eu hanfon i CBAC gyda thaflenni marcio'r aseswyr mewnol ac allanol.

Sylwadau'r Prif Arholwr

Eleni eto cyflwynwyd adroddiad manwl ynghylch y Prawf Ysgrifennu gan yr arholwr. Fel cadeirydd yr arholwyr, yn dilyn ein cyfarfod dyfarnu, cyflwynais innau adroddiad hefyd ar ran panel y cyfarfod hwnnw a swyddogion CBAC ynghylch y drefn a ddefnyddir wrth bennu'r ffiniau rhwng y gwahanol gategorïau – Methu, Llwyddo, Clod a Rhagoriaeth. Yn yr adroddiad hwn, felly, trafodir hyfforddiant, y Cyflwyniadau Llafar, a nodir rhai argymhellion sy'n berthnasol i'r Dystysgrif yn gyffredinol.

Hyfforddiant

Unwaith eto cynhaliwyd cyfarfod hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid y Dystysgrif a'r arholwyr allanol. Yn ystod y cyfarfod gwyliwyd nifer o fideos o ymgeiswyr o wahanol safonau a safodd y Prawf Llafar yn 2017, gan ganolbwyntio unwaith eto ar y dull analytig o ddyfarnu marciau a chyd-drafod pob cyflwyniad ar ôl gwylio a gwrando. Credaf ei bod yn deg dod i'r casgliad bod y cyfarfod hyfforddi hwn yn llwyddiannus oherwydd, at ei gilydd, doedd dim bwlch mawr rhwng y marciau a ddyfarnwyd gan y tiwtoriad mewnol a'r aseswyr allanol ar gyfer cyflwyniadau llafar eleni.

Cyflwyniadau Llafar

Mae'r sylwadau a wnaed y llynedd ynghylch materion ymarferol yn berthnasol eleni eto. Mae'n bwysig (a) bod y camera yn wynebu'r ymgeiswyr fel ei bod hi'n bosib gweld eu hwynebau a (b) bod y meicroffon yn codi lleisiau'r ymgeiswr a'r arholwyr. Byddai gweithredu'r pwyntiau hyn yn hwyluso'r gwaith o'u gwylio ac o wrando arnynt yn ystod y cyfarfodydd safoni. Ac yn bwysicach, trwy wneud hyn, gellir sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael chwarae teg yn ystod y broses ddyfarnu.

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr bynciau diddorol yn seiliedig ar eu cyrsiau a'u modiwlau. Y prif wendid, hyd yn oed ymhlith y goreuon, oedd glynu'n rhy glòs wrth nodiadau. Canlyniad 'darlleniadau' fel hyn fu colli cysylltiad â'r gynulleidfa leyg ddychmygol yn ogystal â'r cywair llafar sy'n hanfodol er mwyn dal sylw'r gynulleidfa honno. Mae'n bwysig hefyd eu bod yn nodi pwyntiau yn gryno ac yn gywir ar eu sleidiau, heb eu gorlwytho â manylion diangen. Gallai hynny eu hannog i'w defnyddio fel sbardun i ehangu arnynt yn ystod eu cyflwyniadau, heb orfod cyfeirio at nodiadau eraill yn barhaus.

Roedd safon ail ran y profion yn uwch eleni ac roedd nifer o ymgeiswyr a fu'n gaeth i'w nodiadau yn ystod rhan gyntaf y Prawf yn profi bod ganddynt wybodaeth led drylwyr o'u pynciau wrth ateb cwestiynau.

Argymhellion

Mae'r argymhellion a wnaed y llynedd ynghych nodi'n fanylach allu llafar ac ysgrifenedig yr ymgeiswyr wrth ddyfarnu'r Dystysgrif yn berthnasol o hyd. Mae'n galonogol sylwi bod nifer cynyddol o ymgeiswyr yn datgan eu brwdfrydedd dros weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y ddau brawf. Dylai'r profiad o baratoi at y Dystysgrif hon eu cynorthwyo a'u hybu i wireddu'r dymuniad hwnnw ar ôl gadael y Brifysgol. Ar gychwyn yr adroddiad hwn cyfeiriais at y nodiadau manwl a gyflwynwyd gan arholwr y Prawf Ysgrifennu y llynedd ac eleni.

Dyfarnwyd y marciau ar sail y meini prawf canlynol:

1. Dull cyflwyno (20 marc)
2. Ystod cystrawennau a geirfa (20 marc)
3. Cynnwys a threfn y cyflwyniad (20 marc)
4. Ymateb i gwestiynau (20 marc)
5. Cywirdeb (10 marc)
6. Deunydd gweledol (10 marc)

Dyma'r ystadegau ar gyfer y meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu'r cyflwyniadau:

Maen prawf	**Mwyafswm**	**Cymedr 2017**	**Cymedr 2018**
Dull cyflwyno	20	14.6	14.9
Ystod cystrawennau a geirfa	20	15.0	15.4
Cynnwys a threfn y cyflwyniad	20	15.4	15.5
Ymateb i gwestiynau	20	15.0	15.4
Cywirdeb	10	6.9	7.2
Deunydd gweledol	10	6.9	6.9
Cyfanswm:	**100**	**73.8**	**75.8**

Mae'r marciau ar gyfartaledd ychydig yn uwch eleni nag yn 2017. Mae hyn yn cadarnhau sylwadau'r prif Arholwr. Gwelwyd llai o ymgeiswyr yn ddibynnol ar sgript, ac efallai fod hynny'n ffactor.

Prawf Ysgrifennu

Llwyddodd nifer o'r ymgeiswyr i gyflwyno tri ateb o safon uchel gan ddefnyddio Cymraeg cywir a choeth wrth drawsieithu ac ysgrifennu'n rhydd. Wrth ateb cwestiwn 3 (Ysgrifennu Rhydd) yr enillodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y marciau uchaf eto eleni a chafwyd yr argraff bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi arfer llunio llythyr cais am swydd.

Rhan 1 – Darn i'w Gywiro

Dyma'r cynllun marcio penodol a ddefnyddiwyd gan y marciwr yn 2018. Lle roedd ymgeiswyr wedi dod o hyd i ffordd amgen o gywiro'r testun (gan gadw'r ystyr), roeddynt yn derbyn y marc llawn. Roedd y gwallau y gellid eu hadnabod drwy ddefnyddio Cysill/Cysgliad yn derbyn 1 marc, felly mae cyfanswm o 22 gwall yn y testun. Amlygir y gwallau 1 marc mewn lliw llwyd isod.

TY.1	**Gwall**	**Allan o**
TY1.1	Hoffwch = Hoffech	2

TY1.2	yn gwlad = mewn gwlad	1
TY1.3	Sefydlid = Sefydlwyd	2
TY1.4	awydd = awyddus	2
TY1.5	Enw cwmni = Enw'r cwmni	2
TY1.6	ar dros y byd = ar draws y byd	2
TY1.7	Er enhgraifft = Er enghraifft	1
TY1.8	mynychi = mynychu	2
TY1.9	talu dros = talu am	2
TY1.10	ac eich llety = a'ch llety	2
TY1.11	Gwlad bell eraill = Gwlad bell arall	2
TY1.12	weithio ynddo = weithio ynddi	2
TY1.13	mewn cartrefu = mewn cartrefi	2
TY1.14	ddeuddeg oedran = ddeuddeg oed	2
TY1.15	Cynigiodd = Cynigir	2
TY1.16	agosaf = agosach [/nes?]	2
TY1.17	dreulio'r gyfnod = dreulio'r cyfnod	1
TY1.18	neu mewn = neu yn derbyn 'neu mewn Ysgol Gymraeg yn Llundain'	2
TY1.19	Ewch amdano = Ewch amdani	2
TY1.20	eich orwelion = eich gorwelion	1
TY1.21	Cysylltwch i gwmni = Cysylltwch â chwmni	2
TY1.22	manylion bellach = manylion pellach	2
	Cyfanswm:	40
	Haneru a thalgrynnu:	20

Dyma sylwadau'r marciwr:

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i nodi'r cywiriadau mewn print trwm a dileu'r sgript wreiddiol oddi ar y sgrîn ar ôl cwblhau'r dasg. Roedd nifer fechan o ymgeiswyr, fodd bynnag, wedi amlygu camgymeriadau mewn print trwm ond heb gywiro. Ychydig iawn o ymgeiswyr gafodd farciau llawn am gywiro'r darn a dyma lle y cafodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y marciau isaf. Rhestrir yr eitemau a oedd yn peri anhawster isod:

TY1.1 'hoffwch'– nifer fawr heb gywiro. Cafwyd ambell 'a hoffwch chi…'.
TY1.2 'yn gwlad' – cafwyd 'yng ngwlad' yn aml.
TY1.3 'sefydlid' – nifer heb gywiro, cafwyd 'sefydlogir' fel un cynnig.
TY1.8 'mynychi' – nifer heb sylwi ar y camgymeriad, cafwyd 'sy'n fynychi'
TY1.10 'ac eich llety' – cafwyd 'a eich llety' / â'ch llety' / â'ch bwyd a llety'.
TY1.12 'weithio ynddo' – nifer heb gywiro – cafwyd 'weithio yno'.
TY1.13 'mewn cartrefu' – nifer heb sylwi ar y camgymeriad.
TY1.14 'deuddeg oedran' – er bod nifer wedi cywiro, cafwyd ambell gynnig annisgwyl fel 'deuddegfed oedran'.
TY1.15 'cynigiodd' – roedd hwn yn faen tramgwydd hyd yn oed i'r ymgeiswyr da a chafwyd aml i 'cynigwyd' a 'cynigiwyd' a 'cynigiai'.
TY1.16 'agosaf' – nifer o'r ymgeiswyr heb gywiro, cafwyd 'sy'n agosaf'
TY1.18 'neu mewn Ysgol Gymraeg Llundain' – nifer fawr heb gywiro.
TY1.22 'manylion pellach' – nifer heb gywiro.

Dyma rai o'r atebion cywir a gafwyd a oedd yn wahanol i'r rhai yn y cynllun marcio. Dyfarnwyd y marc llawn lle roedd hyn yn digwydd.

TY1.3 'sefydlid' – 'cafodd y cwmni ei sefydlu'/ 'mae cwmni newydd wedi ei sefydlu'.
TY1.4 'awydd' – 'ac sydd awydd' / 'sydd â'r / 'ag awydd' / 'gyda'r awydd' / 'gydag awydd'.
TY1.6 'ledled y byd', 'sydd â chysylltiad â Chymru yn fyd-eang'.

TY1.12 ‘talu dros’ – ‘talu cost eich tocyn awyren’.
TY1.14 ‘deuddeg oedran’ – ‘deuddeg mlwydd oed’.
TY1.15 ‘cynigiodd’ – ‘y mae sawl cyfle’ / ‘mae yna sawl cyfle’.
TY1.16 ‘gwledydd agosaf’ – ‘mwy agos’, ‘nes’.
TY1.17 ‘treulio’r gyfnod’ – ‘treulio cyfnod’.
TY1.18 ‘neu mewn Ysgol Gymraeg Llundain’ – ‘neu gyda…’ / ‘neu o fewn…’
TY1.21 ‘cysylltwch i gwmni…’ – ‘cysylltwch gyda chwmni / hefo cwmni’.
TY1.22 ‘i gael manylion pellach’ – ‘i gael rhagor o fanylion’.

Roedd y dadansoddiad fesul eitem yn cadarnhau’r sylwadau.

Eitem	Cymedr	Ffactor Hygyrchedd	Mwyafswm
1.	0.86	43.2	2
2.	0.45	44.8	1
3.	1.02	51.2	2
4.	1.47	73.4	2
5.	1.66	83.0	1
6.	1.48	74.1	2
7.	0.83	83.4	1
8.	1.34	67.2	2
9.	1.19	59.7	2
10.	0.61	30.3	2
11.	1.66	82.8	2
12.	0.68	34.2	2
13.	1.06	52.9	2
14.	1.60	79.9	2
15.	0.39	19.7	2
16.	1.10	55.0	2
17.	0.85	85.3	1
18.	1.08	54.1	2
19.	1.26	63.1	2
20.	0.86	85.7	1
21.	1.25	62.7	2
22.	0.84	41.9	2
Rhan 1:	11.74	58.9	40*

*Hanerir y cyfanswm a’i dalgrynnu.

Gydag eitem TY1.2, roedd Cysill yn adnabod y gwall, ond heb gynnig yr ateb cywir. Roedd ymgeiswyr yn sgorio’n well gyda’r eitemau lle roedd Cysill yn cynnig yr ateb priodol, a hynny i’w ddisgwyl. Y cymedr ar gyfer Rhan 1 yn 2017 oedd 58.2, sy’n agos iawn at gymedr 2018. Nid oes tystiolaeth fod y rhan hon wedi bod yn anos eleni nac unrhyw eitem benodol wedi profi’n annheg.

Rhan 2 – Trawsieithu

Dyma’r cynllun marcio a ddefnyddiwyd gan y marciwr:

TY2.	Maen prawf	allan o

TY2.1	**Cywirdeb**	10
TY2.2	**Ystod**	10
TY2.3	**Addasrwydd y testun**	10
TY2.4		
	Pwyntiau allweddol	
	Pwrpas y gynhadledd – denu rhagor o athrawon i gyflawni'r targed o filiwn o siaradwyr	2
	Gweinidog y Gymraeg yn ymrwymo i hyn.	2
	Rhesymau negyddol – nodi dau o'r tri a nodir	2
	Rhesymau cadarnhaol – nodi dau allan o dri	2
	Adroddiad yn annog Gweinidogion i weithredu'r pwyntiau	2
	Cyfanswm:	40

Dyma sylwadau'r marciwr:

Siomedig ar y cyfan oedd yr atebion i'r cwestiwn yma. Roedd chwe ymgeisydd (nifer uwch na'r llynedd) wedi camddeall natur y dasg ac wedi cyfieithu'r darn. Dyma rai o'r gwendidau:

Pwyntiau allweddol

Nid oedd pawb wedi deall nod y Gynhadledd, sef trafod dulliau o recriwtio mwy o athrawon a darlithwyr i addysgu Cymraeg fel pwnc a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi nodi bod hyn ynghlwm wrth nod y Llywodraeth o sicrhau bod miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Nododd rhai, fodd bynnag, mai *mil* o siaradwyr oedd y nod.
Ychydig iawn o ymgeiswyr soniodd am ymrwymiad Gweinidog y Gymraeg. Cafodd aml i deitl newydd, sef Prif Weinidog, Cenhadwr Addysg, Gweinidog Addysgiadol a chan un ymgeisydd, y Gadeirlan.
Roedd tuedd i gyffredinoli a nodi nad oedd y ddelwedd yn apelio, ond heb fanylu pam a'r un modd gyda'r rhesymau cadarnhaol.
Anwybyddodd nifer o'r ymgeiswyr y paragraff olaf ac ni chafwyd cyfeiriad o gwbl at yr adroddiad oedd i'w anfon at y Gweinidogion. O'r rhai a soniodd am yr adroddiad, ni nododd nifer bwysigrwydd gweithredu'r pwyntiau trafod yn strategaethau'r dyfodol.

Cywirdeb ac Ystod

- Yn aml iawn, cafwyd 'cynhaliwyd cynhadledd diweddar' yn lle 'yn ddiweddar'.
- Cafwyd 'cenhedlaeth' yn lle 'cynhadledd' gan amryw.
- Ysgrifennodd nifer o'r ymgeiswyr 'Yng nghynhadledd addysg ddiweddar…'
- Roedd nifer yn defnyddio berf amhersonol lle'r oedd angen berf bersonol e.e. 'Cafwyd cynhadledd ei threfnu / 'Soniwyd y gynhadledd addysg …' neu roeddynt yn defnyddio amser anghywir y ferf amhersonol.

Geirfa

Defnyddiodd rhai ymgeiswyr y gair 'anfonogion' eto eleni a hefyd 'llys anfonogion' lle y byddai 'cynrychiolwyr' wedi bod yn fwy naturiol. Cafwyd amrywiadau ar ffurf luosog 'cynrychiolwyr', sef 'cynrychiadolion' a 'cynrycholyddion' / 'cynrychiolyddion'. Ysgrifennwyd hefyd 'undodau' (am 'undebau')

Dyma'r ystadegau ar gyfer meini prawf Rhan 2:

Maen prawf	Mwyafswm	Cymedr	Cymedr

		2017	2018
Cywirdeb	10	6.32	6.27
Ystod	10	6.07	5.99
Addasrwydd y testun	10	5.82	5.73
Pwyntiau allweddol	10	5.48	4.25
Cyfanswm:	**40**	**23.9**	**22.4**

Mae hi'n amlwg fod rhai ymgeiswyr yn colli marciau am fethu â chrynhoi'r pwyntiau allweddol neu am anwybyddu'r testun gwreiddiol, felly mae'r cymhedrau'n is yn y meini prawf hynny.

Rhan 3 – Ysgrifennu Rhydd

Dyma'r meini prawf a'r gofynion yr oedd yn rhaid i'r ymgeiswyr eu hateb:

TY3.	Maen prawf	allan o
TY3.1	**Cywirdeb**	10
TY3.2	**Ystod**	10
TY3.3	**Cynnwys a threfn**	10
TY3.4		
	Gofynion (ar y papur)	
	Pam rydych chi'n gymwys i wneud y swydd hon (cofiwch nodi teitl y swydd).	2
	Unrhyw brofiad perthnasol sydd gennych.	2
	Sut mae eich personoliaeth yn gweddu i'r swydd.	2
	Un enghraifft o'ch profiad sy'n dangos eich gallu i wneud y swydd.	2
	Unrhyw ddau gwestiwn i'r cyflogwr.	2
	Cyfanswm:	40

Dyma rai o sylwadau'r marciwr:

Roedd yr atebion i gwestiwn 3 yn dda iawn ar y cyfan a nifer o'r atebion yn rhagorol. Roedd yr ystod swyddi yr ymgeisiwyd amdanynt yn amrywio o reolwr fferm i diwtor caplaniaid i arweinydd côr. Nododd bron pob un bwysigrwydd y Gymraeg fel sgìl hanfodol yn y gweithle. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi nodi nifer y geiriau a ddefnyddiwyd a chyda rhai eithriadau, roedd pawb wedi cadw o fewn y terfynau. Lluniodd nifer o ymgeiswyr lythyr ffurfiol cwbl briodol ei fformat.

Dylid nodi, fodd bynnag:

- nad yw hi'n briodol cyfarch darpar gyflogwr hefo 'helo' na chloi llythyr cais am swydd gyda 'cofion' neu 'cofion cynnes'.
- mai 'clywed oddi wrthych' sy'n gywir ac nid 'clywed wrthych'.
- 'mynegi diddordeb mewn swydd' a wneir yn hytrach na 'pwysleisio fy niddordeb' .
- na ddylid defnyddio'r ffurf 'ti' neu 'dy' hefo darpar gyflogwr e.e. 'diolch am dy amser…'.

Cywirdeb, Ystod, Cynnwys a Threfn

Roedd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu'n llawer mwy cywir wrth ateb cwestiwn 3 ac roedd nifer fawr ohonynt yn defnyddio ystod o gystrawennau gan amrywio amser y ferf. Roedd y cynnwys a threfn y cynnwys yn dda ar y cyfan.

Ateb y gofynion

Nodir yn y cwestiwn y dylid cynnwys nifer o bwyntiau ond roedd rhai ymgeiswyr yn colli marciau trwy beidio â chynnwys yr holl bwyntiau, e.e. ddim yn trafod sut roedd eu personoliaeth yn gweddu i'r swydd (iii) a thrwy beidio gofyn dau gwestiwn i'r cyflogwr (v).

(i a ii) Roedd bron pawb wedi nodi teitl y swydd yn glir ac wedi cyfeirio at eu cymwysterau a'u profiad perthnasol. Roedd gan nifer helaeth o'r ymgeiswyr stôr o brofiadau oedd yn eu gwneud yn gymwys i'w dewis swydd. Roedd rhai yn tueddu i wastraffu geiriau yn traethu eu barn, e.e. ar y byd addysg neu'r byd gwleidyddol ar draul ateb gofynion y dasg.
(iii) Llwyddodd nifer fawr o'r ymgeiswyr i gyfleu sut roedd eu personoliaeth yn gweddu i'r swydd. Roedd ambell un yn sôn am sgiliau yn hytrach na phersonoliaeth.
(iv) Cafwyd enghreifftiau rhagorol o brofiadau gwaith oedd yn dangos gallu'r ymgeisydd i wneud y swydd. Roedd rhai ymgeiswyr, fodd bynnag, yn anghofio cyfeirio at enghraifft benodol neu'n cyfeirio'n arwynebol at elfen o'u profiad. Llwyddodd y goreuon i sôn am brofiadau perthnasol gan ymhelaethu ar un profiad arbennig oedd yn dangos eu gallu i wneud y swydd.
(v) Roedd safon y cwestiynau yn amrywio gyda rhai yn holi cwestiynau perthnasol a threiddgar 'Ydach chi'n credu bod rhai mentrau (amaethyddol) efo gwell siawns o fod yn broffidiol ar ôl Brexit?' / 'Oes cynllun gan yr heddlu i weithio gydag asiantaethau eraill er mwyn cryfhau cyfathrebu rhwng grwpiau eraill y gymdeithas fel pobl fyddar neu grwpiau o bobl dramor?' tra bo eraill yn holi cwestiynau mwy personol, e.e. 'Ydy'n bosib gweithio i'ch cwmni os oes gan yr ymgeisydd wallt gyda lliwiau annaturiol?'

Geirfa

Roedd rhai geiriau yn cael eu gorddefnyddio neu eu camddefnyddio, e.e. 'nwydwyllt' – 'Rwyf yn ofnadwy o nwydwyllt am beldroed' a 'nwyd', e.e. 'mae gen i nwyd wrth weithio o fewn y maes…'.
'ofnadwy' – 'ofnadwy o gymwys' (am swydd).
'aruthrol' – 'fe lwyddais yn aruthrol mewn Addysg Gorfforol'.
Roedd y gair 'angerdd' yn cael ei ddefnyddio yn gyson – 'angerdd i ddysgu' / 'angerdd tuag at fywyd' / 'maes sy'n sbarduno angerdd i mi'. Weithiau defnyddid 'angerdd' pan olygid 'brwdfrydedd', e.e. 'Mae gen i angerdd yn gweithio efo pobl ifanc' / 'angerdd i helpu pobl eraill'. Roedd sawl un yn disgrifio'i hun fel person angerddol.

Argymhellion

Mae angen rhoi sylw i'r rhain:

1. Ffurfiau'r amhersonol a phryd i'w defnyddio.
2. Defnyddio 'yn' a 'mewn' yn gywir – 'diddordeb mewn' nid 'yn'/ 'yn Seland Newydd' (nid 'mewn SN'). Cafwyd 'diddordeb mawr mewn eich swydd' / 'gweithio yng nghyfrwng y Gymraeg'.
3. Y defnydd o 'byth' ac 'erioed' – cafwyd enghreifftiau o ysgrifennu 'Dwi erioed wedi cael diddordeb yn …'
4. Defnyddio 'ei' ac 'eu' yn gywir.
5. Y defnydd o arddodiaid:
(i) pa arddodiad i'w ddefnyddio ar ôl rhai berfau e.e. 'edrych ymlaen at'/ 'diddordeb mewn' (nid 'diddordeb am').
(ii) lleoli arddodiad mewn brawddeg, (e.e. peidio ag ysgrifennu 'sy'n hawdd gweithio gydag') a therfyniadau wrth redeg arddodiaid. Cafwyd 'mae gennym lawer o ddiddordebau..' / 'clywed ohonoch chi'.
6. Terfyniadau berfau – cafwyd 'Roeddwn ni' yn aml / 'gobeithio byddwn yn clywed oddi wrthoch yn fuan' / 'aethom i Brifysgol Abertawe'.
7. Ystyr ac ym mha gyd-destun i ddefnyddio 'Cymru / Cymraeg / Cymreig'. Ysgrifennwyd 'Llywodraeth Cymraeg' yn aml iawn.
8. Lleoliad 'hefyd' ac 'eisoes' mewn brawddeg. Yn aml ysgrifennwyd 'Mae hefyd gen i…' / 'rydwi wedi eisoes bod…'.
9. Sicrhau wrth ysgrifennu'n rhydd eich bod yn treiglo enw eich prifysgol yn gywir, e.e. 'ym Mhrifysgol Bangor (nid yn y Brifysgol Bangor / Aberystwyth), yn Brifysgol Cymru…'/ 'yn Goleg Sir Gar' a pheidio ag ysgrifennu 'i UWTSD yn Abertawe' na 'ffrifysgolion'.

Roedd nifer o staff y prifysgolion gyda chryn brofiad o'r byd gwaith yn ogystal â myfyrwyr is ac ôl radd ymhlith yr ymgeiswyr eleni. Yr hyn sy'n aros yn y cof eto eleni yw sêl yr ymgeiswyr dros Gymreictod a'u gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg beth bynnag fo'u maes arbenigol. 'Dwi'n meddwl mai astudio Cymraeg yw un o'r profiadau gorau i mi wneud erioed' oedd sylw ymgeisydd hŷn o'r gweithle oedd wedi mynd ati i ddysgu Cymraeg ar ôl cael ei phenodi i swydd yng Nghymru. Bydd ymgeiswyr yr arholiad yma yn gaffaeliad i weithleoedd. Gobeithio y cânt y cyfle i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg ac y cânt hefyd ddigon o gyfleoedd i gynnal a datblygu eu sgiliau iaith yn y gweithle.

Dyma'r ystadegau ar gyfer meini prawf Rhan 3:

Maen prawf	**Mwyafswm**	**Cymedr 2017**	**Cymedr 2018**
Cywirdeb	10	7.24	7.01
Ystod	10	7.44	7.16
Cynnwys a threfn	10	7.84	7.75
Ateb y gofynion	10	8.53	8.87
Cyfanswm:	**40**	**31.3**	**30.79**

Mae'n drawiadol fod y cymedrau ar gyfer Rhan 3 gymaint yn uwch nag ar gyfer Rhan 2. Mae'r Gymraeg yn gywirach a defnyddir ystod gyfoethocach o iaith pan fydd yr ymgeiswyr yn ysgrifennu o fewn eu profiad uniongyrchol.

Argymhellion eraill

Argymhellir bod pob canolfan arholi'n defnyddio'r wefan asesu i gynnal profion ymarfer ymlaen llaw gyda darpar ymgeiswyr, yn agos at ddyddiad y prawf Ysgrifennu ei hun. Bydd hyn yn arbed dryswch ar ddiwrnod yr arholiad, lle bo angen i'r ymgeiswyr roi rhif COD ALLWEDDOL a rhif PIN wrth gofrestru ar y wefan. **Rhaid atgoffa ymgeiswyr i 'arbed' y ddogfen Word *cyn* ei chyflwyno ar y wefan ddiogel. Os cyflwynir dogfen heb ei harbed, (h.y. dogfen wag), ni fydd yr ymgeisydd yn cael marc.**

Ystadegau

Dyma'r cymedr a'r gwyriad safonol ar gyfer y ddwy ran yn 2017 a 2018:

TSI 2017		
	Cymedr	**Gwyriad Safonol**
Cyflwyniad llafar	73.8	11.9
Ysgrifennu	66.8	15.1
Cyfanswm	140.8	23.8

TSI 2018		
	Cymedr	**Gwyriad Safonol**
Cyflwyniad llafar	75.8	11.2
Ysgrifennu	64.8	15.1
Cyfanswm	140.6	23.0

Fe welir bod y cymedr yn is yn y prawf Ysgrifennu, a'r gwyriad safonol yn fwy nag ar gyfer y Cyflwyniad Llafar – sy'n golygu bod y prawf wedi amlygu'r gwahaniaeth rhwng ymgeiswyr yn fwy, ac mae'r ystod marciau hefyd yn fwy. Fodd bynnag, o gyfuno'r ddau brawf, gwelir cysondeb o ran y cymedr a'r gwyriad safonol.

Nodir isod faint o ymgeiswyr oedd wedi derbyn y graddau gwahanol dros gyfnod o dair blynedd:

TSI 2016 **Cyfanswm ymgeiswyr: 239**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	68	29%
Clod	81	34%
Llwyddo	68	29%
Methu	18	8%

TSI 2017 **Cyfanswm ymgeiswyr: 267**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	70	26.2%
Clod	87	32.6%
Llwyddo	73	27.3%
Methu	37	13.9%

TSI 2018 **Cyfanswm ymgeiswyr: 260**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	63	24.2%
Clod	81	31.2%
Llwyddo	80	30.8%
Methu	36	13.8%

Mae'r dosbarthiad ychydig yn wahanol, a chanran uwch heb gyrraedd y trothwy llwyddo. Mae canran yr ymgeiswyr sy'n derbyn gradd y graddau eraill yn debyg iawn i'r hyn a welwyd yn y gorffennol.

Mae dwy ran y cymhwyster yn ymbatrymu'n wahanol iawn, a llawer mwy'n methu â chyrraedd y trothwy llwyddo yn y Prawf Ysgrifennu. Mae hynny i'w ddisgwyl.

Dyma'r dosbarthiad yn ôl y ddwy ran, dros gyfnod o ddwy flynedd:

TSI 2017 **Cyflwyniad Llafar**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	92	34.5%
Clod	100	37.5%
Llwyddo	69	25.8%
Methu	6	2.2%
TSI 2017 **Ysgrifennu**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	58	21.7%
Clod	76	28.5%
Llwyddo	99	37.1%
Methu	34	12.7%

TSI 2018 **Cyflwyniad Llafar**		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	109	41.9%

Clod	94	36.2%
Llwyddo	52	20.0%
Methu	5	1.9%
TSI 2018 Ysgrifennu		
Gradd	**Nifer**	**Canran**
Rhagoriaeth	52	20.0%
Clod	52	20.0%
Llwyddo	122	46.9%
Methu	34	13.1%

Mae canrannau'r ymgeiswyr a gafodd y graddau gwahanol yn agos i'r hyn a welwyd yn 2017. Dylid nodi nad yw'r ffiniau'n seiliedig ar gadw'r canrannau hyn yn debyg i flwyddyn i flwyddyn – pennir y ffiniau drwy fesur perfformiad yr ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf sydd yn y fanyleb.

Cynrychiolir y dosbarthiad marciau yn y graffiau isod, ac mae'r gwahaniaeth yn eglur:

Ffigwr 1



Ffigwr 2



Ffigwr 3



Dyma'r ffiniau a bennwyd i'r graddau yn 2018, o'u cymharu â ffiniau 2017. Dyfernir gradd ar sail cyfartaledd y ddwy ran.

	Cyflwyniad Llafar 2017	Prawf Ysgrifennu 2017	Cyfanswm 2017
Rhagoriaeth:	80	80	160
Clod:	68	68	136
Llwyddo:	50	50	100

	Cyflwyniad Llafar 2018	Prawf Ysgrifennu 2018	Cyfanswm 2018
Rhagoriaeth:	79	79	158
Clod:	68	70	138
Llwyddo:	50	50	100

Rhaid cyrraedd ffin **Llwyddo** yn y *ddwy* ran i ennill y cymhwyster.

Holiaduron Adborth

Anfonwyd holiadur electronig at bob ymgeisydd drwy'r CCC, yn gofyn am adborth am y cymhwyster. Derbyniwyd 71 o ymatebion, ac er mai canran yn unig o'r ymgeiswyr a gynrychiolir yma, mae'n ychwanegu at y proffil. Mae'r canrannau wedi eu talgrynnu hyd at un pwynt degol.

Ydych chi'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg? Ticiwch un ateb.	2017	2018
Ydw, pob rhan o'r cwrs astudio.	29.4%	37.1%
Ydw, yn rhannol (mwy na 50%).	19.1%	14.3%
Ydw, yn rhannol (llai na 50%).	42.7%	28.6%
Nid wyf yn astudio cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.	11.8%	21.4%

Roedd cynnydd sylweddol yng nghanran y rhai sy'n astudio'n gyfangwbl drwy'r Gymraeg a'r rhai sy'n astudio'r cyfan drwy'r Saesneg. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn rhai sy'n astudio *rhan* o'u cwrs drwy'r Gymraeg. Cofier mai dim ond canran o'r ymgeiswyr a atebodd yr holiadur, felly nid yw'n ddarlun cyflawn.

Ydych chi'n derbyn ysgoloriaeth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol?	2017	2018
Ydw	66.7%	50.7%
Nac ydw	33.3%	49.3%

Dim ond hanner yr ymgeiswyr dderbynioddd ysgoloriaeth gan y CCC eleni, sy'n ostyngiad sylweddol o gymharu â nifer 2017.

Pam safoch chi'r arholiad? Ticiwch bob ateb perthnasol.	2017	2018
Roedd rhaid i mi sefyll yr arholiad.	50.7%	49.3%
I gael cymhwyster ychwanegol.	76.8%	52.3%
I wella fy Nghymraeg.	29.0%	23.2%
I gael swydd yng Nghymru.	21.7%	8.7%

Mae'n drawiadol fod llai o ymgeiswyr yn gweld bod TSI yn gymhwyster defnyddiol a fyddai'n eu cynorthwyo i gael swydd yng Nghymru.

Gofynnwyd i'r ymgeiswyr am eu barn am y ddwy ran, gan holi'n benodol pa mor berthnasol oeddynt i'w hanghenion.

Cyflwyniad Llafar
Roedd 74.6% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y Cyflwyniad Llafar yn berthnasol neu'n berthnasol iawn i'w hanghenion, sy'n debyg i ganran 2017 (78.3%). Dyma ddetholiad o'r sylwadau:

- Roedd yn brofiad gwerthfawr gorfod gwneud cyflwyniad trwy gyfrwng y Gymraeg, gan nad wyf wedi arfer gwneud.
- Ces i siarad am bwnc oedd yn berthnasol i fy nghwrs, ac felly roeddwn i'n ddigon gwybodus i'w gyflwyno'n hyderus.
- Siaradais am bwysigrwydd ymarfer siarad i ddysgwyr Cymraeg – fel rhywun sy wedi dysgu'r iaith (ac yn parhau!), mae siarad wedi bod yn hanfodol trwy'r dysgu ac yn parhau wrth i mi ddysgu oedolion eraill nawr.
- Roeddwn i'n gallu cyflwyno fy mhwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a dysgu termau technegol newydd yn Gymraeg, er fy mod i'n astudio'r cwrs trwy Saesneg, dw i'n gobeithio defnyddio fy sgiliau a'r gwaith ymchwil yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Help mawr yn fy swydd ac wedi helpu codi fy hyder wrth gyflwyno yn Gymraeg.

Prawf Ysgrifennu
Roedd 56.1% o'r ymatebwyr yn meddwl bod y Prawf Ysgrifennu'n berthnasol neu'n berthnasol iawn i'w hanghenion, ac 19.7% wedi nodi 'rhannol berthnasol'. Mae hynny ychydig yn is na chanrannau 2017 (61.8% a 25% wedi nodi 'rhannol berthnasol'. Dyma ddetholiad o'r sylwadau:

- Roedd y prawf ysgrifennu yn heriol, yn enwedig i gyflawni'r 3 tasg o fewn yr awr a hanner. Cefais yr ail dasg yn anodd.
- Eto ces i gyfle i fynegi ychydig o fy mhrofiad o fy nghwrs trwy ysgrifennu llythyr cais am y swydd gobeithiaf fynd amdani yn y dyfodol. Yn ogystal, roedd adnabod y gwallau iaith yn caniatáu i mi wella fy Nghymraeg.
- Roedd y prawf ysgrifenedig yn wahanol achos bod Tasg 3 yn cymryd yn ganiataol bod ymgeiswyr yn astudio yn y brifysgol am y tro cyntaf. Serch hynny, rwyf yn deall bod llawer o ymgeiswyr y dyddiau hyn (gan gynnwys fi) yn gwneud cwrs ychwanegol neu yn gweithio i brifysgolion. Felly, roeddwn yn trio cofio sut oeddwn yn teimlo fel myfyrwraig y tro cyntaf... Paratoais am ysgrifennu ar gyfer gwefan/papur fel yr enghreifftiau yn y cynbapurau felly roedd angen ysgrifennu llythyr tipyn bach o sioc....
- Da cael adolygu a defnyddio gramadeg cywir wedi astudio Lefel UG/U. Defnyddiol wrth ysgrifennu traethodau coleg.

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau eraill a oedd ganddynt am y Dystysgrif. Dyma ddetholiad o'r ymatebion:

- Dw i'n meddwl bod y cymhwyster yn gwerthfawr o ran profi gallu yn yr iaith. Rwy'n falch fy mod wedi rhoi cynnig arni, a chroesi bysedd am ganlyniad ffafriol!
- Edrychaf ymlaen at sefyll yr arholiad ysgrifenedig y flwyddyn nesaf. Mae'n drueni nad oes modd cynnig un sesiwn ychwanegol ar gyfer unrhywun nad oedd yn gallu sefyll yr arholiad ar y 9fed. Teimlaf braidd fy mod i wedi gwastraffu amser y blwyddyn yma o ganlyniad, ond gobeithiaf y bydda i'n medru cwblhau'r cwrs y flwyddyn nesaf.
- Awr a hanner yn ormod o amser ar gyfer yr arholiad – ond efallai fod gan siaradwyr llai rhugl farn wahanol!
- Angen mwy o amser i'r arholiad ysgrifenedig: tua 2 awr (wedi rhedeg allan o amser). Hefyd ei wneud yn fwy perthnasol i'r gweithle, e.e. mwy am sgiliau cyflogadwyedd.
- Dw i'n ddiolchgar iawn am gael y cyfle ddilyn y cwrs a sefyll yr arholiad. Ces i'r cyfle i ddod i adnabod Cymry Cymraeg eraill yn y Brifysgol drwy'r sesiynau paratoi. Dw i'n ddiolchgar iawn i'n tiwtor am ei brwdfrydedd a'i help.